Datganiad gan Gorff Llywodraethol

Melin Gruffydd

Gwyddom eich bod yn rhieni cefnogol sydd yn bryderus ynglŷn â dyfodol addysg eich plant yma ym Melin Gruffydd. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi cynllun Caerdydd dros adrefu addysg gynradd yn yr Eglwys Newydd fydd yn golygu bod Melin Gruffydd yn ail-leoli i adeiladau Y*sgol Eglwys Newydd* gyda buddsoddiad sylweddol o £4.9m yn y safle. Bydd nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym Melin Gruffydd yn cynyddu o 315 i 420 a bydd yr ysgol yn parhau i wasanaethu dalgylch presennol yr ardal. Canlyniad y rhaglen fuddsoddiad hon fydd ailwampio, addasu ac ehangu'r adeiladau parhaol presennol gan gynnwys darparu dosbarth meithrin.

Rydym ni fel Llywodraethwyr, wedi bod yn cymryd rhan weithgar yn y broses ymgynghori a arweiniodd at y penderfyniad hwn. Er na wnaethon ni benderfynu cyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol, yn dilyn cyfres o gyfarfodydd hir iawn ac archwiliad manwl o'r holl faterion cysylltiedig, fe ysgrifennom at Gyngor Caerdydd gan fynegi ein pryderon am agweddau amrywiol o'r cynllun.

Er gwaethaf hyn, croesawn y penderfyniad cyflym gan y Gweinidog yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda'r Cyngor er mwyn sicrhau trawsnewidiad llyfn ac effeithlon i'r safle newydd. Bydd y llywodraethwyr yn cymryd rhan weithgar yn ystod y misoedd i ddod i fonitro sut mae'r project adrefnu yn cael ei weithredu a'i gynnydd.

Er y bydd nifer o heriau o'n blaenau, mae angen i ni sicrhau na cheir unrhyw ymyrraeth wrth drosglwyddo'r cwricwlwm i'r plant. Rhaid i ni sicrhau bod y staff dysgu a chynorthwyol yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod trawsnewid i'r safle newydd. Rydym yn awyddus i alluogi ein rhieni i fynegi eu barn ynglŷn â'r project ysgol newydd ac wedi sefydlu gwe-gyswllt newydd (llywodraethwyr@ygmg.com) er mwyn i'ch syniadau a'ch awgrymiadau gael eu cyfathrebu'n uniongyrchol i'r corff llywodraethol. Mae eich rhiant gynrychiolwyr ar y corff llywodraethol yn barod bob tro i wrando ac i fod o gymorth.

Bydd y datrysiad yn rhoi gwell mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg i blant o'r ardal leol. Mae'r safle newydd mewn lleoliad canolog, o fewn ardal dalgylch Melin Gruffydd. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi datgan bod y cynllun yn gallu cynnig darpariaeth ar gyfer plant yr adran cyfrwng Saesneg. Ychydig iawn o lefydd gwyrddion fydd yn cael eu gwerthu, ac fe fyddai hyn wedi bod yn niweidiol i'r gymuned gyfan.

Bydd yr uwchraddiad i gyfleusterau presennol yn sicrhau bydd ein plant, am y tro cyntaf, yn cael eu rhoi mewn cyfleuster cynnes a sych o'r unfed ganrif ar hugain heb unrhyw ystafelloedd dosbarth tu allan dros dro. Bydd y trefniadau amser cinio lawer yn fwy hydrin a bydd y plant yn elwa'n fawr o'r buddsoddiad sylweddol o £4.9m yn y safle.

Mae Melin Gruffydd ac *Ysgol Eglwys Wen* wedi cyd-fyw yn gydfuddiannol ers amser maith ac rydym wedi mynychu'r un safle gyda chydweithrediad gweithredol, ewyllys da a heb anghytundeb arwyddocaol ers 1979. Fodd bynnag, rydym yn argyhoeddedig, pan gaiff y cynllun yma ei weithredu'n llawn, plant ardal yr Eglwys Newydd yn gyfan fydd yn elwa o ganlyniad i'r ad-drefniad addysgiadol yma.

Rydym felly'n edrych ymlaen gyda hyder, er mwyn i ni allu parhau â'r gwaith o addysgu ein pobl ifanc mewn amgylchedd sydd lawer mwy addas ar gyfer hyrwyddo cyflawniad uchel, ar gyfer ein holl ddisgyblion.

Rhodri Lloyd

Cadeirydd Llywodraethwyr.

09/02/11